**Cylch Gorchwyl:**
# Y PWYLLGOR TALIADAU

Yn adrodd i'r: Cygnor

Yn cwrdd: Unwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Gorffennaf 2022; diwygiwyd ddiwethaf: Gorffennaf 2020; ac i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2024*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (Cadeirydd)<br>• Cadeirydd y Cyngor<br>• 2 Aelod Annibynnol, y gall hyd at un ohonynt fod wedi'i gyfethol / beidio â bod yn aelod o'r Cyngor<br>• 1 Aelod o'r Staff (a benodir o blith yr aelodau o'r Senedd a'r Staff Anacademaidd ar y Cyngor)<br>• 1 Aelod o'r Myfyrwyr (a benodir o blith yr aelodau o'r Myfyrwyr ar y Cyngor)<br><br>6 aelod.<br><br>Cworwm: 4 aelod. | • Yr Is-Ganghellor<br>• Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol<br>• Ysgrifennydd y Brifysgol<br><br>Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol.<br><br>Ni chaiff unigolion fod yn bresennol tra bo taliadau iddynt yn cael eu trafod. |

Cylch gwaith:

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n ystyried materion yn ymwneud â thaliadau staff uwch y Brifysgol ac yn penderfynu yn eu cylch, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn annibynnol ac yn gymwys, ac mae ganddo'r gallu i benodi arbenigwyr annibynnol allanol yn ôl y galw.

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried ac argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo:
    a. Polisi'r Brifysgol ar daliadau staff uwch.
2. Ystyried a bod ag awdurdod i gymeradwyo ar ran y Cyngor:
    a. Materion yn ymwneud â thaliadau staff uwch yn unol â'r Polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor; ac
    b. Adroddiad blynyddol ar y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Taliadau ar ran y Cyngor, y cyflwynir copi ohono i'r corff llywodraethu ac y cyhoeddir fersiwn gryno ohono'n rhan o Ddatganiadau Ariannol blynyddol y Brifysgol.
3. Derbyn adroddiadau a chynghori'r Cyngor a / neu'r Is-Ganghellor fel y bo'n briodol ynghylch:
    a. Unrhyw benderfyniadau a wneir gan yr Is-Ganghellor yn unol â'r Polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor, ynghylch staff uwch eraill nad oes angen i'r Pwyllgor gymeradwyo materion yn ymwneud â thaliadau iddynt; ac
    b. Arfer gorau yn y sector o ran taliadau i staff uwch.

Gweithredu

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu 'Cod Taliadau Staff Uwch mewn Addysg Uwch' Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (Mehefin 2018), a 'Cod Llywodraethu Addysg Uwch' Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (Rhagfyr 2014), ac mae'n cydymffurfio â hwy.

Cymeradwyir Polisi'r Brifysgol ar daliadau i staff uwch gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Taliadau, a bydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch:

- Y staff uchaf y bydd eu taliadau'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor; ac unrhyw staff uwch eraill y gall yr Is-Ganghellor gytuno ar daliadau iddynt (a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor er gwybodaeth);
- Sut i fynd ati i bennu taliadau i ddeiliaid y swyddi hyn;
- Defnyddio sefydliadau / cyrff cymharu i feincnodi cyflogau staff uwch;
- Rheoli perfformiad, gan gynnwys peidio â chyflawni cyfraniad disgwyliedig;
- Cadw unrhyw incwm y mae deiliaid swyddi'n ei greu o gyrff allanol ar eu liwt eu hunain;
- Taliadau diswyddo.

Bydd yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor fel rheol yn seiliedig ar y templed a argymhellwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion, a bydd yn ceisio rhoi sicrwydd digonol i'r corff llywodraethu fod y Pwyllgor Taliadau'n arfer ei ddyletswyddau'n effeithiol.

Cyflwynir datganiad blynyddol ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol hwn yn rhan o Ddatganiad Ariannol blynyddol y Brifysgol a bydd yn nodi:

- Rhestr o ddeiliaid swyddi sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor;
- Polisi'r Brifysgol ar daliadau i ddeiliaid swyddi sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor;
- Dewis sefydliadau / cyrff cymharu;
- Y polisi ar incwm sy'n deillio o weithgareddau allanol;
- Lluosrif enillion yr Is-Ganghellor ac enillion canolrifol holl weithlu'r sefydliad, gan ddangos sut y mae'r lluosrif wedi newid dros amser ac, os yw'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd, eglurhad o'r rheswm dros hynny; ac
- Eglurhad o unrhyw newidiadau arwyddocaol.